**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ar ddydd Mercher 2il Medi 2009 am 09.30 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr I W Armstrong, J R Bartley, B Blakeley, W L Cowie, M Ll Davies, P A Dobb, G C Evans, D Hannam, C Hughes, T R Hughes, E R Jones, H Ll Jones, G M Kensler, L M Morris, P W Owen, D Owens, A G Pennington, B A Smith, D I Smith, D A J Thomas, S Thomas, J Thompson-Hill, C H Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Arweinydd Tîm (Cymwysiadau Mawrion), Arweinydd Tîm (Cefnogi) (G Butler), Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid (Judith Williams) a Catrin Gilkes (Cyfieithydd).

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH**

Y Cynghorwyr P Duffy, J Bellis, J Chamberlain-Jones, A Davies, J Davies, I Gunning, M Eckersley, N Hughes.

**250 MATERION BRYS**

**251 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn rhestru cynlluniau a gyflwynwyd ac angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) Bod argymhellion y Swyddogion, fel y'u cynhwyswyd yn yr adroddiad a gyflwynir nawr, yn cael eu cadarnhau a bod caniatâd cynllunio neu wrthodiad fel y bo'r achos, yn cael eu cyflwyno fel y bo'n briodol dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i'r datblygiad a gynigir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a nodwyd yn yr atodlen a gyflwynir nawr:*

(i) Caniatâd

| Rhif Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 01/2008/1308/PF | Datganodd y Cynghorydd Cefyn Williams fuddiant yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra cafodd ei drafod.<br>Ar ôl ystyried ymweliad safle a gynhaliwyd ar 28ain Awst 2009 a llythyrau ychwanegol gan Heddlu Gogledd Cymru; P Carvell, Y Fedw Arian, Ffordd Rhuthun, Dinbych.<br>Newid defnydd o uned fflat un stafell yn llety tai â chefnogaeth yn cynnwys 6 uned a llety staff.<br>**Llys Gwyn 63 Vale Street Dinbych**<br>**GWRTHOD**<br>Cymerwyd y penderfyniad hwn, a oedd YN GROES i argymhelliad y swyddogion, am y rheswm canlynol:<br>Ym marn yr awdurdod cynllunio lleol, byddai defnyddio'r eiddo fel llety tai â chefnogaeth gydag elfen o ofal / gefnogaeth yn ychwanegu at orgrynodiad o ddefnydd tebyg yn yr ardal, gan effeithio'n andwyol gymeriad yr ardal, ac ystyrir ei fod yn debygol o achosi effeithiau mwynderau annerbyniol ar y cartref gofal gerllaw, yn Y Gelli. Ystyrir |

| | |
|---|---|
| | felly bod y cynigion yn groes i Bolisi GEN 6 ii, v, a xi o Gynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych. |
| 10/2009/0544/PF | Trosi adeiladau allanol i unio 1 tŷ annedd, gosod tanc septig newydd ac ail-osod mynediad i gerbydau o'r gorllewin.<br>**Adeilad allanol yn Nhalybidwal Bach Bryneglwys Corwen**<br>**CANIATAU** |
| 45/2009/0719/AD | Parhau i arddangos 3 arwydd cyfeirio ar gorneli Rhodfa'r Gorllewin /Sydenham Avenue, Wellington Road/Sydenham Avenue a Wellington Road/Quay Street (cais ôl-weithredol)<br>**Cyn Barc Difyrion y Rhyl 104 Rhodfa'r Gorllewin y Rhyl**<br>**CANIATAU**<br>**(Dymunodd y Cynghorydd G Kensler gael nodi na fu iddi bleidleisio ar y cynnig hwn, gan nad oedd yn Siambr y Cyngor ar gyfer y drafodaeth)** |
| 46/2009/0672/PF | Adeiladu 1 tŷ annedd sengl yn wynebu Gemig Street<br>**Tir y tu ôl i Central Buildings Stryd Fawr, Llanelwy**<br>**CANIATÁU** |

Daeth y cyfarfod i ben am 10.30a.m.

*********